Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2026

Dyddiad cyhoeddi:16/06/2026

# Arolwg o'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion: polisïau ac effeithiau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-625-3

Arolwg o’r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion: polisïau ac effeithiau

Awduron: Charlotte Eales a Kyle Henry

Adroddiad Ymchwil Llawn: Eales, C., Henry, K. (2026). Arolwg o’r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion: polisïau ac effeithiau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 64/2026.

Mae’r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilydd yw’r farn a nodir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn a rennir gan Lywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 9247

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Rhestr o ffigurau ........................................................................................................2

Geirfa ........................................................................................................3

1. Cefndir........................................................................................................4

2. Methodoleg ........................................................................................................6

3. Proffil ymatebwyr........................................................................................................8

4. Canfyddiadau ........................................................................................................12

5. Casgliadau ........................................................................................................31

Atodiad A Offeryn arolwg ........................................................................................................33

# Rhestr o ffigurau

Ffigur1: prif rôl yr ymatebwyr........................................................................................8
Ffigur 2: ym mha fath o leoliad ydych chi'n gweithio? ...........................................................9
Ffigur 3: dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr yn ôl awdurdod lleol..................................10
Ffigur 4: beth yw sefyllfa eich lleoliad o ran polisi a chanllawiau ar gyfer y defnydd o ffonau symudol?...........................................................................................................12
Ffigur 5: dulliau o ymdrin â pholisi a chanllawiau ar y defnydd o ffonau symudol, yn ôl math o leoliad.............................................................................................................13
Ffigur 6: beth yw'r dull gweithredu cyfredol o ran y defnydd o ffonau symudol yn eich lleoliad? ............................................................................................................14
Ffigur 7: amrywiad yn y dulliau cyfredol o ymdrin â pholisi a chanllawiau ffonau symudol, yn ôl math o leoliad ...............................................................................................15
Ffigur 8: i ba raddau y mae'r polisi ffonau symudol yn cael ei orfodi'n gyson ar draws eich lleoliad (e.e. ystafelloedd dosbarth, coridorau, mannau cymdeithasol)? .................17
Ffigur 9: cysondeb gorfodi polisi ffonau symudol, yn ôl math o leoliad ................................17
Ffigur 10: pa mor bwysig yw pob un o'r rhesymau canlynol mewn perthynas â dull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol?......................19
Ffigur 11: sut fyddech chi'n disgrifio effaith dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar y meysydd canlynol?................................................................20
Ffigur 12: sut fyddech chi'n disgrifio lefel y gefnogaeth i ddull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran defnydd o ffonau symudol ymhlith y grwpiau canlynol? .....................21
Ffigur 13: lefelau canfyddedig cefnogaeth myfyrwyr i'r dull cyfredol, yn ôl math o leoliad ...22
Ffigur 14: pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth ddatblygu eich dull gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol? ......................................................................23
Ffigur 15: pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth weithredu eich dull o ran y defnydd o ffonau symudol? ..........................................................................25
Ffigur 16: yn eich barn chi, pa ffactorau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth ddatblygu dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol? ..................................26
Ffigur 17: ffactorau sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth weithredu dull lleoliad o ymdrin â'r defnydd o ffonau symudol ..........................................................................27
Ffigur 18: yn eich barn chi, beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud o ran y defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg ac unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig?.......28

# Geirfa

**ADEW**

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol

**AB**

Addysg bellach

**GSR**

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

**ALI**

Awdurdod lleol

**AALI**

Awdurdod addysg lleol

**UCD**

Uned cyfeirio disgyblion

**SLT**

Uwch dîm arwain

# 1. Cefndir

Mae'r adran hon yn darparu cyd-destun o ran cefndir y polisi sy'n ymwneud â defnyddio ffonau symudol mewn lleoliadau addysg yng Nghymru, gan gynnwys tystiolaeth berthnasol, canllawiau presennol a datblygiadau polisi diweddar.

Mae'r defnydd o ffonau symudol gan ddysgwyr mewn lleoliadau addysg wedi cael sylw cynyddol yng Nghymru a ledled y DU. Mae gwaith ymgysylltu blaenorol Llywodraeth Cymru a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid wedi nodi pryderon yn ymwneud â gallu dysgwyr i ganolbwyntio, ymddygiad, lles a diogelu, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â bwlio ar-lein, dod i gysylltiad â chynnwys amhriodol a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae ffonau symudol yn gallu cefnogi cyfathrebu, hygyrchedd ac, mewn rhai amgylchiadau, dysgu. O ganlyniad, mae ystyried y defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg yn gofyn am asesu manteision a risgiau posibl.

Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb am bennu rheolau a pholisïau ar ddefnydd dysgwyr o ffonau symudol ar ysgwyddau ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethu. Mae gan benaethiaid bwerau eisoes i gyfyngu'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol, fel rhan o'u polisïau ymddygiad, ac mae arferion yn amrywio'n fawr rhwng lleoliadau ac awdurdodau lleol. Mae canllawiau ar ddatblygu polisi ymddygiad ar gael yng nghanllawiau ymddygiad craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau addysg. Dylai dulliau o ymdrin â defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion fod yn gyson â pholisïau rheoli ymddygiad ysgolion unigol.

Mae cyfeiriadau at ddefnyddio ffonau symudol hefyd yn ymddangos mewn canllawiau statudol ac anstatudol ehangach, gan gynnwys Cadw dysgwyr yn ddiogel, sy'n nodi cyfrifoldebau diogelu ar gyfer lleoliadau addysg, a chyfres o ganllawiau diogelwch ar-lein a gwydnwch digidol sydd ar gael drwy Hwb. Mae'r dogfennau hyn yn tynnu sylw at ddyletswyddau ysgolion i amddiffyn dysgwyr rhag niwed, gan gynnwys risgiau ar-lein a digidol, a chael polisïau a gweithdrefnau clir a dealladwy ar waith. Mae polisïau ffonau symudol felly'n croestorri â meysydd polisi ehangach, gan gynnwys diogelu, rheoli ymddygiad, lles dysgwyr, anghenion dysgu ychwanegol, a chymhwysedd digidol o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud ag ymddygiad dysgwyr a defnyddio ffonau symudol yn Uwchgynhadledd Ymddygiad 2025, a ddaeth ag ymarferwyr addysg a rhanddeiliaid ynghyd i ystyried ymddygiad a diogelwch mewn ysgolion, ac mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau'r Senedd. Un o ganlyniadau'r Uwchgynhadledd oedd sefydlu fforwm ymarferwyr a rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion. Cafodd y fforwm, sy'n cynnwys penaethiaid, ymarferwyr, awdurdodau lleol, arweinwyr ymchwil academaidd a sefydliadau'r trydydd sector, ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2025 a bu'n cyfarfod yn rheolaidd hyd at fis Ionawr 2026.

Wrth ymgysylltu ag ymarferwyr drwy'r fforwm, tynnwyd sylw at gyfres ehangach o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddulliau ysgolion o ymdrin â'r defnydd o ffonau symudol. Yn ogystal â phryderon am darfu yn yr ystafell ddosbarth, roedd y ffactorau hyn yn cynnwys materion yn

ymwneud â thegwch a chynhwysiant, megis amrywiaethau o ran gallu dysgwyr i gyrchu ffonau symudol, a phwysigrwydd ymgynghori â rhieni a dysgwyr wrth ddatblygu polisïau ysgol. Ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru, lluniodd y fforwm ganllawiau drafft gyda'r bwriad o gefnogi ysgolion i reoli'r defnydd o ffonau symudol drwy ddulliau ymarferol, adnoddau ac enghreifftiau o arferion da.

Mae datblygiadau yng Nghymru yn digwydd ochr yn ochr â gweithgarwch polisi ehangach ledled y DU. Yn Lloegr, cyhoeddodd yr Adran Addysg ddiweddariad i'r canllawiau anstatudol ym mis Ionawr 2026 yn nodi y dylai pob ysgol fod yn amgylcheddau rhydd o ffonau symudol yn ddiofyn, ac mai eithriad yw unrhyw sefyllfa wahanol i hynny. Mae Ofsted wedi cadarnhau y bydd polisïau ffonau symudol a'u gweithrediad yn cael eu hystyried fel rhan o drefn sylfaenol arolygu ysgolion. Ym mis Mawrth 2026, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar brofiadau plant yn y byd ar-lein sy'n cynnwys ystyried a ddylid gwneud canllawiau presennol ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion yn statudol. Gallai canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys dadansoddiad o'r ymatebion o Gymru, lywio datblygiad polisi yn y dyfodol.

Yn y cyd-destun hwn, mae rhaglen o ymgysylltu cenedlaethol wedi bod ar waith. Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 6 Mawrth 2026, lansiodd Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Addysg arolwg cenedlaethol o'r gweithlu addysg er mwyn casglu tystiolaeth ar bolisïau ffonau symudol presennol, y rhesymeg sy'n sail i wahanol ddulliau gweithredu ac effeithiau canfyddedig ar ddysgu, ymddygiad a lles. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg hwn a'i fwriad yw llywio'r gwaith o fireinio canllawiau drafft a chefnogi datblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

# 2. Methodoleg

Nod yr ymchwil hon oedd casglu barn a phrofiadau'r gweithlu addysg yng Nghymru mewn perthynas â'r defnydd o ffonau symudol gan ddysgwyr mewn ysgolion. Yn benodol, roedd yn ceisio deall y polisïau sydd gan leoliadau ar waith, y rhesymau dros fabwysiadu gwahanol ddulliau, yr heriau a'r hwylustod ynghlwm wrth eu datblygu a'u gweithredu, a chanfyddiadau'r gweithlu o effeithiau'r polisïau hyn.

Cafodd holiadur yr arolwg ei ddatblygu ar y cyd gan swyddogion yn yr Is-adran Cefnogi Mynediad at Addysg a dadansoddwyr Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR). Roedd y dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y cwestiynau yn mynd i'r afael ag anghenion polisi cyfredol, yn cael eu fframio mewn iaith niwtral a dadansoddol gadarn, ac yn berthnasol ar draws gwahanol leoliadau addysg a rolau yn y gweithlu.

Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys cyfanswm o 15 cwestiwn. Roedd hyn yn cynnwys 14 cwestiwn caeedig, 6 ohonynt yn darparu cyfleoedd i ymatebwyr ddarparu ymatebion testun agored ychwanegol, ac 1 cwestiwn agored. Roedd pob cwestiwn yn orfodol. Cynhyrchodd yr eitemau caeedig ddata meintiol ar bolisïau, arferion a chanfyddiadau cyfredol sy'n ymwneud â'r defnydd o ffonau symudol gan ddysgwyr, tra bod ymatebion testun agored yn darparu data ansoddol ar ddehongli, cyflawni a gweithrediad ymarferol y dulliau hyn. Mae dyluniad yr arolwg yn galluogi dadansoddiad disgrifiadol o batrymau ar draws ymatebwyr ochr yn ochr â dadansoddiad thematig i gefnogi dealltwriaeth gyd-destunol ddyfnach o brofiadau o fewn gwahanol leoliadau addysg.

Nid oes un ffrâm samplu gynhwysfawr sy'n cwmpasu'r holl staff addysg ymhob ysgol a lleoliad yng Nghymru. O ganlyniad, defnyddiodd yr arolwg ddull gwahoddiad agored yn hytrach na samplu tebygolrwydd. Rhannwyd yr arolwg drwy sianeli cyfathrebu sefydledig Llywodraeth Cymru a'r sector perthnasol er mwyn cyrraedd y gweithlu addysg, gan gynnwys Hwb (platfform dysgu digidol cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n darparu adnoddau, offer a chefnogaeth ddwyieithog ar gyfer addysg yng Nghymru) a chylchlythyr Dysg (e-gylchlythyr addysg swyddogol Llywodraeth Cymru). Yn ogystal, rhannwyd dolen yr arolwg yn niweddariad pythefnosol Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), gyda chynrychiolwyr o'r cymdeithasau proffesiynol, ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Facebook ac X) a thrwy ddatganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Addysg.

Roedd cymryd rhan yn wirfoddol a'r ymatebwyr eu hunain oedd yn dewis cymryd rhan. Oherwydd nad oedd yr arolwg yn dibynnu ar restr weinyddol o enwau cysylltiadau, nid oedd yn bosibl penderfynu yn union faint o unigolion a dderbyniodd neu a welodd y gwahoddiad, na chyfanswm maint y boblogaeth a gyrhaeddwyd. Fodd bynnag, mae data ymgysylltu gan Hwb yn dangos bod yr erthygl 'Arolwg ffonau symudol i ysgolion' wedi derbyn dros 2,000 o edrychiadau, gan roi rhyw awgrymu o gyrhaeddiad drwy'r sianel hon yn unig. Ni osodwyd targed o ran nifer ymatebion ymlaen llaw, gan fod cyfranogiad yn dibynnu ar ddefnydd gwirfoddol drwy gylchrediad agored.

Gweinyddwyd yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio SmartSurvey ac roedd ar agor rhwng 6 Mawrth 2026 a 27 Mawrth 2026. Cyflwynwyd ymatebion yn ddienw ac ni chasglwyd unrhyw ddata personol neu ddata y gellid ei ddefnyddio i adnabod rhywun. Derbyniwyd cyfanswm o 410 o ymatebion. Cafodd yr holl ddata ei storio a'i drin yn unol â gofynion diogelu data Llywodraeth Cymru a safonau llywodraethu ymchwil.

Cyflwynwyd un ymateb gan ddysgwr a chafodd yr ymateb hwnnw ei eithrio o'r dadansoddiad, gan mai bwriad yr arolwg oedd cipio barn y gweithlu addysg yn unig. Cafodd gweddill yr ymatebion i'r arolwg i gyd eu cynnwys yn y dadansoddiad. Dadansoddwyd data meintiol o gwestiynau caeedig yn ddisgrifiadol, ac maen nhw'n cael eu cyflwyno fel cyfrifiadau a chanrannau. Mae canrannau yn seiliedig ar nifer yr ymatebwyr a atebodd pob cwestiwn ac maen nhw'n hepgor ymatebion coll.

Darparwyd ymatebion testun agored gan is-set o ymatebwyr, ac fe'u dadansoddwyd yn thematig ochr yn ochr â'r canfyddiadau meintiol. Cafodd ymatebion eu hadolygu mewn modd systematig, gyda themâu ailadroddus yn cael eu nodi a'u crynhoi. Caiff enghreifftiau darluniadol eu cynnwys lle bo hynny'n briodol i ddangos sut y disgrifiodd ymatebwyr eu dulliau. Nid yw canfyddiadau ansoddol yn cael eu cyffredinoli y tu hwnt i'r rhai a ddarparodd ymatebion testun agored.


Derbyniwyd ymatebion gan aelodau o'r gweithlu addysg sy'n gweithio ar draws ystod o leoliadau addysg, rolau ac ardaloedd awdurdodau lleol. Fodd bynnag, oherwydd bod yr arolwg yn defnyddio dull agored, hunan-ddewisol, nid yw'n bosibl cyfrifo cyfradd ymateb sy'n golygu na ellir asesu cwmpas y gweithlu addysg llawn, ac mae'n bosibl bod rhai grwpiau wedi eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli. O ganlyniad, dylid dehongli canfyddiadau fel rhai dangosol, gan nad ydynt yn ystadegol gynrychiadol o'r gweithlu addysg yn ei gyfanrwydd. Roedd yr arolwg, fodd bynnag, yn galluogi casglu tystiolaeth yn gyflym gan ystod eang o weithwyr addysg proffesiynol ac yn cynnig cipolwg ar arferion amrywiol ar draws lleoliadau.

# 3. Proffil ymatebwyr

O'r cyfanswm o 410 o ymatebion a dderbyniwyd, cyflwynwyd 9 ymateb yn Gymraeg, gyda'r gweddill yn Saesneg.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu prif rôl (Ffigur 1).

## Ffigur1: prif rôl yr ymatebwyr (n=410)





[Nodyn 1]: Mae 'Arall' yn cynnwys 16 o ymatebwyr a nododd drwy'r ymateb testun agored mai eu prif rôl oedd llywodraethwr, arweinydd diogelu, arweinydd canol, technegydd gwyddoniaeth neu swyddog awdurdod lleol (ALl).
[Nodyn 2]: Cyfanswm canrannau yn 100.1% oherwydd talgrynnu.

Disgrifiad o ffigur 1: mae'r siart bar hwn yn dangos bod bron i hanner (49.0%) yr ymatebwyr yn athrawon dosbarth a bron i draean (29.8%) o'r ymatebwyr yn rhan o'r uwch dîm arwain, tra bod llai nag 1 o bob 10 ymatebydd yn gynorthwywyr addysgu neu'n staff cymorth (7.8%). Ychydig iawn o ymatebwyr a oedd yn gweithio fel staff bugeiliol/lles (3.7%), staff gweinyddol (2.4%), arweinwyr ymddygiad (1.7%) neu arbenigwyr anghenion dysgu ychwanegol (1.7%).

Gofynnwyd i ymatebwyr ym mha fath o leoliad maen nhw'n gweithio (Ffigur 2).

## Ffigur 2: ym mha fath o leoliad ydych chi’n gweithio? (n=410)





[Nodyn 1]: Mae ‘Arall’ yn cynnwys 15 o ymatebwyr (3.7%) sy’n gweithio mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCD) neu ddarpariaeth amgen, lleoliadau dysgu 16–19 oed neu golegau addysg bellach (AB), ysgolion annibynnol, ac awdurdodau addysg lleol (AALl).

Disgrifiad o ffigur 2: mae’r siart bar hwn yn dangos bod bron i 7 o bob 10 ymatebydd (69.5%) yn gweithio mewn ysgol uwchradd. Mae 1 o bob 5 ymatebydd pellach yn gweithio mewn ysgol gynradd (18.1%). Mae llai nag 1 o bob 20 o ymatebwyr yn gweithio mewn ysgolion arbennig (4.9%) neu ysgolion pob oed (3.9%).

Gofynnwyd i’r ymatebwyr nodi eu lleoliad yn ôl awdurdod lleol (Ffigur 3).

**Ffigur 3: dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr yn ôl awdurdod lleol (n=410)**




Disgrifiad o ffigur 3: mae'r map gwres hwn yn dangos nifer yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd fesul awdurdod lleol. Mae ardaloedd wedi eu lliwio yn ôl nifer yr ymatebion, gyda niferoedd uwch yn cael eu dangos mewn lliwiau tywyllach (o oren golau i ddu). Derbyniwyd y nifer uchaf o ymatebion o Ben-y-bont ar Ogwr (n=71) a Sir y Fflint (n=69), ac yna Abertawe (n=53). Cofnodwyd nifer cymharol uchel o ymatebion yn Sir Ddinbych (n=37), Caerdydd (n=32) a Chasnewydd (n=32) hefyd. Daeth llai nag 20 o ymatebion o bob un o'r awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf (n=16), Caerffili (n=13), Sir Gaerfyrddin (n=11), Gwynedd (n=11) a Wrecsam (n=11), Bro Morgannwg (n=8) a Sir Fynwy (n=8), Conwy (n=5), Sir Benfro (n=5), Castell-nedd Port Talbot (n=5), Blaenau Gwent (n=5), Ynys Môn (n=4), Merthyr Tudful (n=4), Torfaen (n=4), Ceredigion (n=3) a Phowys (n=3). Derbyniwyd cyfanswm o 410 o ymatebion.

# 4. Canfyddiadau

## Statws polisi a dulliau cyfredol o ymdrin â’r defnydd o ffonau symudol


Gofynnwyd i’r ymatebwyr beth oedd dull presennol eu lleoliad o ymdrin â defnydd dysgwyr o ffonau symudol (Ffigur 4).

### Ffigur 4: beth yw sefyllfa eich lleoliad o ran polisi a chanllawiau ar gyfer y defnydd o ffonau symudol? (n=410)




Disgrifiad o ffigur 4: mae’r siart bar hwn yn dangos bod dwy ran o dair o’r ymatebwyr (66.3%) wedi dweud bod gan eu lleoliad bolisi ysgrifenedig ffurfiol. Dywedodd bron i 1 o bob 5 ymatebydd (18.0%) fod ganddynt ganllawiau a rheolau ysgrifenedig ond dim polisi ffurfiol, a dywedodd ychydig dros 1 o bob 8 ymatebydd (13.2%) fod ganddynt ganllawiau a rheolau dealledig ond dim polisi ffurfiol. Dim ond 10 ymatebydd (2.4%) a nododd nad oes ganddynt unrhyw ganllawiau na rheolau a dim polisi ffurfiol. Gofynnwyd i’r 10 ymatebydd hyn a oeddent yn ystyried datblygu, neu yn y broses o ddatblygu, polisi, canllawiau neu reolau ffonau symudol yn eu lleoliad. Dywedodd 5 ymatebydd eu bod yn y broses o ddatblygu polisi/canllawiau a rheolau a dywedodd 5 nad oeddent yn gwneud hynny.

## Ffigur 5: dulliau o ymdrin â pholisi a chanllawiau ar y defnydd o ffonau symudol, yn ôl math o leoliad




[Nodyn 1]: dim ond 72 o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wnaeth nodi eu bod yn gweithio mewn ysgol gynradd; o ganlyniad, mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau ar gyfer y grŵp hwn.


Disgrifiad o ffigur 5: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod presenoldeb polisi ysgrifenedig ffurfiol ar y defnydd o ffonau symudol yn fwy cyffredin mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd. Dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd (74.4%) fod gan eu lleoliad bolisi ysgrifenedig ffurfiol, o'i gymharu â thua thraean o'r ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd (33.3%). Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt naill ai ganllawiau a rheolau dealledig ond dim polisi ffurfiol (34.7%) neu ganllawiau a rheolau ysgrifenedig ond dim polisi ffurfiol (23.6%), o'i gymharu â chyfrannau llai mewn ysgolion uwchradd (8.8% a 16.9% yn y drefn honno). Dywedodd cyfran fach o ymatebwyr o ysgolion cynradd (8.3%) nad oedd ganddynt ganllawiau na rheolau cyfredol a dim polisi ffurfiol, ond ni chafodd hyn ei grybwyll o gwbl ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd.

Nifer fechan o ymatebion a gafwyd gan unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed, a dylid eu dehongli yn ofalus o'r herwydd. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen (n=3), dywedodd 2 fod ganddynt bolisi ysgrifenedig ffurfiol, tra dywedodd 1 ymatebydd fod ganddynt ganllawiau a rheolau ysgrifenedig ond dim polisi ffurfiol. Ar gyfer ysgolion arbennig (n=18), dywedodd y mwyafrif fod ganddynt bolisi ysgrifenedig ffurfiol (n=12) gyda

nifer llai yn crybwyll nad oedd ganddynt ganllawiau na rheolau cyfredol a dim polisi ffurfiol (n=2), canllawiau a rheolau dealledig ond dim polisi ffurfiol (n=2), neu ganllawiau a rheolau ysgrifenedig ond dim polisi ffurfiol (n=2). Ymhlith ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion pob oed (n=14), dywedodd y mwyafrif fod ganddynt bolisi ysgrifenedig ffurfiol (n=12), gydag 1 ymatebydd yn crybwyll canllawiau a rheolau dealledig ond dim polisi ffurfiol ac 1 yn sôn am ganllawiau a rheolau ysgrifenedig ond dim polisi ffurfiol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yw'r dull gweithredu cyfredol o ran ffonau symudol dysgwyr yn eu lleoliad (Ffigur 6).

### Ffigur 6: beth yw'r dull gweithredu cyfredol o ran y defnydd o ffonau symudol yn eich lleoliad? (n=400)





[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd, 'Caniateir ffonau ar y safle, â defnydd cyfyngedig (e.e. amser egwyl)' a 'Caniateir ffonau ar y safle, a ddefnyddir yn ôl disgresiwn yr athrawon yn unig (e.e. gweithgareddau dysgu ac argyfyngau)'.

Disgrifiad o ffigur 6: mae'r siart bar hwn yn dangos bod ychydig llai na hanner yr ymatebwyr (46.3%) wedi dweud bod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol. Dywedodd bron i 1 o bob 4 ymatebydd (23.0%) fod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond gyda chyfyngiad ar eu defnydd. Dim ond 1 o bob 10 ymatebydd (9.8%) a nododd nad yw ffonau yn cael eu caniatáu ar safle. Ychydig iawn o ymatebwyr wnaeth sôn bod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond eu bod yn cael eu cloi mewn cydau ffôn (5.5%) a bod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond dim ond yn cael eu defnyddio gyda disgresiwn athrawon (3.5%). Dywedodd llai nag 1% (0.8%) o'r ymatebwyr nad oes unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o ffonau symudol gan ddysgwyr.

Dewisodd ychydig dros 1 o bob 10 ymatebydd (11.3%, n=45) ddarparu ymateb testun agored i'r cwestiwn hwn. Nododd llawer fod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond yn cael eu cadw'n ddiogel (er enghraifft, mewn swyddfa, derbynfa neu gyda staff) a'u dychwelyd i ddysgwyr ar ddiwedd y dydd. Soniodd eraill am systemau casglu sy'n seiliedig

ar wersi, fel cydau ffôn ac ati, gyda ffonau'n cael eu rhoi i mewn ar ddechrau gwersi a'u casglu ar y diwedd. Cyfeiriodd naw ymatebydd at gyfyngiadau a oedd yn amrywio yn ôl grŵp blwyddyn, gan amlaf yn berthnasol o Flwyddyn 5 neu Flwyddyn 6, yn aml yn gysylltiedig â theithio adref yn annibynnol ac, mewn rhai achosion, yn gofyn am ganiatâd rhieni. Defnyddiodd rhai yr ymateb testun agored i ymhelaethu ar gyfyngiadau ar y defnydd o ffonau ar y safle, gan gynnwys cyfyngiadau gofodol (er enghraifft, ffonau ddim yn cael eu caniatáu y tu mewn i'r adeilad neu ffonau yn cael eu caniatáu yn yr awyr agored yn ystod amser egwyl yn unig). Cynigiodd nifer llai ragor o fanylion am ddefnydd cyfyngedig at ddibenion dysgu neu yn ôl disgresiwn athrawon. Tynnodd lleiafrif sylw at heriau gyda gorfodi, gan gynnwys dysgwyr yn defnyddio ffonau er gwaethaf cyfyngiadau datganedig, a disgrifiwyd mesurau fel cymryd ffonau oddi ar ddysgwyr neu bennu cosbau fel rhan o weithredu'r polisi.

## Ffigur 7: amrywiad yn y dulliau cyfredol o ymdrin â pholisi a chanllawiau ffonau symudol, yn ôl math o leoliad




[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd, 'Caniateir ffonau ar y safle, â defnydd cyfyngedig (e.e. amser egwyl)' a 'Caniateir ffonau ar y safle, a ddefnyddir yn ôl disgresiwn yr athrawon yn unig (e.e. gweithgareddau dysgu ac argyfyngau)'.

[Nodyn 2]: dim ond 66 o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wnaeth nodi eu bod yn gweithio mewn ysgol gynradd; o ganlyniad, mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau ar gyfer y grŵp hwn.
[Nodyn 3]: Mae ymatebion testun agored a ddarparwyd o dan 'Arall' yn cael eu trafod yn y canfyddiadau ansoddol ar dudalen 14.

Disgrifiad o ffigur 7: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos mai'r dull gweithredu mwyaf cyffredin a nodwyd mewn ysgolion uwchradd oedd caniatáu ffonau symudol ar y safle ond peidio â chaniatáu eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol, gyda hynny'n cael ei adrodd gan ychydig dros hanner yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau uwchradd (53.9%). Dywedodd tua 3 o bob 10 ymatebydd o ysgolion uwchradd (30.4%) eu bod yn caniatáu ffonau ar y safle gyda chyfyngiadau ar eu defnydd, er enghraifft ar adegau egwyl. Dywedodd cyfrannau llai nad oedd ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle (7.3%), eu bod yn cael eu defnyddio gyda disgresiwn athrawon yn unig (4.8%), neu nad oedd unrhyw gyfyngiadau ar fyfyrwyr yn defnyddio ffonau symudol. Dewisodd ychydig o dan 5% (4.8%) o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd ddarparu ymateb testun agored o dan yr opsiwn 'Arall'.


Soniodd tua 1 o bob 5 ymatebydd sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd (19.7%) nad oedd ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle neu eu bod wedi'u cloi mewn cydau ffôn, a dywedodd mwy nag 1 o bob 5 ymatebydd (22.7%) fod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond nad oeddent yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol. Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr o ysgolion cynradd sôn bod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle gyda chyfyngiad ar eu defnydd. Dewisodd 2 o bob 5 (37.9%) o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd ddarparu ymateb testun agored o dan yr opsiwn 'Arall'.

Dylid dehongli canfyddiadau o'r cwestiwn hwn ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed yn ofalus oherwydd y nifer fach o ymatebwyr o'r lleoliadau hyn. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen (n=3), nododd pob ymatebydd nad oedd ffonau symudol yn cael eu caniatáu ar y safle (n=3). Roedd ymatebion gan ysgolion arbennig (n=16) yn dangos cymysgedd o ddulliau ar waith. Y dull gweithredu a nodwyd amlaf oedd bod ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond nad oeddent yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol (n=6), gyda niferoedd llai yn adrodd bod ffonau yn cael eu cloi mewn cydau ffôn (n=3), ddim ond yn cael eu defnyddio gyda disgresiwn athrawon (n=3), ddim yn cael eu caniatáu ar y safle (n=2), neu yn dewis yr opsiwn 'Arall' (n=2). Ar gyfer ysgolion pob oed (n=14), y dull gweithredu a adroddwyd amlaf oedd caniatáu ffonau ar y safle ond nad oeddent yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol (n=9) gyda niferoedd llai yn adrodd bod ffonau yn cael eu cloi mewn cydau ffôn (n=2), defnydd cyfyngedig (n=1), dim cyfyngiadau ar ddefnyddio ffonau (n=1), neu ddulliau gweithredu 'Arall' (n=1).

## Cysondeb a gorfodi'r dulliau cyfredol


Gofynnwyd i ymatebwyr am gysondeb gorfodi'r polisi ffôn symudol ar draws eu lleoliad (Ffigur 8).

**Ffigur 8: i ba raddau y mae'r polisi ffonau symudol yn cael ei orfodi'n gyson ar draws eich lleoliad (e.e. ystafelloedd dosbarth, coridorau, mannau cymdeithasol)? (n=399)**




Disgrifiad o ffigur 8: mae'r siart bar hwn yn dangos bod dros hanner (55.7%) o'r ymatebwyr wedi adrodd bod y polisi ffonau neu ganllawiau presennol yn eu lleoliad yn cael eu gorfodi naill ai'n gyson iawn (32.1%) neu'n gyson gan mwyaf (23.6%). Dywedodd tua 1 o bob 5 ymatebydd (19.5%) fod gorfodi yn weddol gyson, tra bod chwarter (24.8%) yn adrodd nad yw'n gyson iawn (14.3%) neu ddim yn gyson o gwbl (10.5%).

**Ffigur 9: cysondeb gorfodi polisi ffonau symudol, yn ôl math o leoliad**




[Nodyn 1]: dim ond 68 o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wnaeth nodi eu bod yn gweithio mewn ysgol gynradd; o ganlyniad, mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau ar gyfer y grŵp hwn.


Disgrifiad o ffigur 9: mae’r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod adroddiadau o gysondeb wrth orfodi polisi ffonau symudol yn wahanol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Ymatebwyr sy’n gweithio mewn ysgolion cynradd oedd fwyaf tebygol o adrodd bod polisi yn cael ei orfodi’n gyson iawn, gyda dros 8 o bob 10 ymatebydd yn nodi hyn (85.1%), ac 1 o bob 10 arall yn crybwyll gorfodi cyson gan mwyaf (10.5%). Mewn ysgolion uwchradd, roedd ymatebion yn fwy cymysg. Er bod tua hanner yr ymatebwyr (46%) wedi dweud bod y polisi’n cael ei orfodi’n gyson iawn(19.3%) neu’n gyson gan mwyaf (26.7%), dywedodd dros 2 o bob 5 ymatebydd (41.7%) fod gorfodi yn weddol gyson (24.2%) neu ddim yn gyson iawn (17.5%). Dywedodd tua 1 o bob 8 ymatebydd a nododd eu bod yn gweithio mewn ysgol uwchradd (12.3%) nad oedd y polisi’n cael ei orfodi’n gyson o gwbl.

Nifer fechan o ymatebion a gafwyd gan unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed, a dylid eu dehongli yn ofalus o’r herwydd. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen (n=3), cafwyd tri ymateb gwahanol – bod polisi ffonau symudol yn cael ei orfodi yn gyson iawn (n=1), yn gyson gan mwyaf (n=1) neu yn weddol gyson (n=1). Roedd ymatebion gan ysgolion arbennig (n=17) yn dangos patrwm cymysg, gydag ymatebwyr yn tueddu i adrodd bod gorfodi yn gyson iawn (n=6) neu’n gyson gan mwyaf (n=5) gyda niferoedd llai yn adrodd bod gorfodi ddim yn gyson o gwbl (n=3), ddim yn gyson iawn (n=2), neu yn weddol gyson (n=1). Ymhlith ymatebwyr sy’n gweithio mewn ysgolion pob oed (n=16), roedd safbwyntiau yr un mor gymysg. Adroddodd chwech o ymatebwyr fod polisi yn cael ei orfodi yn gyson iawn, tra bod eraill yn adrodd bod gorfodi yn gyson gan mwyaf (n=3), ddim yn gyson o gwbl (n=4), ddim yn gyson iawn (n=2) neu yn weddol gyson (n=1).

## Ffactorau sy’n dylanwadu ar agweddau tuag at y defnydd o ffonau symudol

Gofynnwyd i’r ymatebwyr am bwysigrwydd gwahanol ffactorau sy’n dylanwadu ar agweddau cyfredol eu lleoliad at ddefnyddio ffonau symudol yn eu lleoliad (Ffigur 10).

**Ffigur 10: pa mor bwysig yw pob un o'r rhesymau canlynol mewn perthynas â dull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol? (n=400)**





[Nodyn 1]: yr opsiwn ymateb llawn yn yr arolwg oedd, 'Lleihau bwlio/defnydd maleisus o ffonau symudol (deunydd amhriodol, rhannu delweddau)', 'Rheoli ymddygiad (e.e. lleihau tarfu lefel isel)', 'Llwyth gwaith staff (e.e. lleihau gwrthdaro neu weinyddu sy'n gysylltiedig â defnydd o ffonau)' a 'Presenoldeb a phrydlondeb (e.e. lleihau'r tebygolrwydd bod dysgwyr yn hwyr oherwydd eu bod yn defnyddio eu ffôn)'.

Disgrifiad o ffigur 10: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod ymatebwyr yn ystyried ffactorau lluosog yn bwysig wrth ystyried dylanwadau ar ddull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol, er bod yr ymatebion yn amrywio rhyw ychydig. Roedd y ffactorau a nodwyd amlaf fel rhai pwysig iawn yn cynnwys cyfyngu ar unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r dysgwyr (83.3%), lleihau bwlio a'r defnydd maleisus o ffonau (82.8%), rheoli ymddygiad (78.5%) a gwella lles dysgwyr (77.0%). Mae'r ymatebion hynny'n cael eu dilyn gan wella cyfathrebu ac ymgysylltu â chyfoedion (63.3%), llwyth gwaith staff (57.5%), presenoldeb a phrydlondeb (42.3%) a disgwyliadau neu ddewisiadau rhieni/gofalwyr (39.5%).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am effaith canfyddedig dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar draws ystod o feysydd (Ffigur 11).

## Ffigur 11: sut fyddech chi'n disgrifio effaith dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar y meysydd canlynol? (n=400)





[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd, 'Rheoli ymddygiad (e.e. lleihau tarfu lefel isel)', 'Lleihau bwlio/defnydd maleisus o ffonau symudol (deunydd amhriodol, rhannu delweddau)', 'Llwyth gwaith staff (e.e. lleihau gwrthdaro neu weinyddu sy'n gysylltiedig â defnydd o ffonau)' a 'Presenoldeb a phrydlondeb (e.e. lleihau'r tebygolrwydd bod dysgwyr yn hwyr oherwydd eu bod yn defnyddio eu ffôn)'.

Disgrifiad o ffigur 11: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod ymatebwyr yn tueddu i sôn am effaith gadarnhaol dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar gyfyngu ar unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r dysgwyr, gyda thua thri chwarter yr ymatebwyr (74.6%) yn nodi effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn. Soniodd tua 6 o bob 10 ymatebydd am effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar reoli ymddygiad (65.0%), lleihau bwlio neu ddefnydd maleisus o ffonau (61.6%), gwella lles dysgwyr (60.8%), gwella cyfathrebu ac ymgysylltu â chyfoedion (60.3%), a chefnogi'r defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol (58.5%). Cyfeiriodd llai na hanner yr ymatebwyr at effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar lwyth gwaith staff (49.8%) ac ar bresenoldeb a phrydlondeb (39.3%).

Mae'r gyfran a awgrymodd effaith negyddol neu negyddol iawn wedi bod yn isel ar draws y rhan fwyaf o agweddau. Yr eithriad oedd llwyth gwaith staff lle nododd bron i 1 o bob 5 ymatebydd (18.5%) effaith negyddol neu negyddol iawn. Mae hyn yn awgrymu, mewn rhai achosion, bod gweithredu polisïau ffôn symudol yn gallu cael ei ystyried yn gyfystyr â mwy o waith i staff, er enghraifft drwy wrthdaro ynghlwm wrth reolau a gofynion gweinyddol cynyddol.

Gofynnwyd i ymatebwyr am lefel y gefnogaeth i ddull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ymhlith ystod o grwpiau perthnasol (Ffigur 12).

## Ffigur 12: sut fyddech chi'n disgrifio lefel y gefnogaeth i ddull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran defnydd o ffonau symudol ymhlith y grwpiau canlynol? (n=400)




[Nodyn 1]: Roedd cwestiwn yr arolwg yn cynnwys opsiwn ymateb 'Amherthnasol'. Roedd nifer yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwn yn amrywio yn ôl grŵp: staff (n=3), myfyrwyr (n=7), rhieni/gofalwyr (n=7), llywodraethwyr (n=47) ac awdurdodau lleol (n=113). Mae'r nifer gymharol uchel o ymatebion 'Amherthnasol' ar gyfer llywodraethwyr ac awdurdodau lleol yn awgrymu nad oedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod y grwpiau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu neu roi dull gweithredu eu lleoliad ar waith. Mae ymatebion 'Amherthnasol' wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad hwn.


Disgrifiad o ffigur 12: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod ymatebwyr wedi nodi lefelau uwch o gefnogaeth i ddull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol gan lywodraethwyr, staff ac awdurdodau lleol na rieni/gofalwyr a myfyrwyr. Llywodraethwyr oedd fwyaf tebygol o fod yn gefnogol iawn (62.9%) neu'n gefnogol gan mwyaf (23.5%) ym marn yr ymatebwyr. Nododd dros dri chwarter yr ymatebwyr fod staff yn gefnogol iawn (46.3%) neu'n gefnogol gan mwyaf (31.5%), ochr yn ochr â lefelau tebyg o gefnogaeth gan awdurdodau lleol (37.3% yn gefnogol iawn a 34.5% yn gefnogol gan mwyaf).

Ar y llaw arall, roedd canfyddiadau o gefnogaeth gan rieni/gofalwyr a myfyrwyr yn fwy cymysg. Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (50.6%) fod rhieni/gofalwyr naill ai'n gefnogol iawn(14.0%) neu'n gefnogol gan mwyaf (36.6%), tra bod bron i 2 o bob 5 (39.2%) yn darparu cymorth cymysg yn ôl adroddiadau'r ymatebwyr. Myfyrwyr oedd leiaf tebygol o gael eu disgrifio fel cefnogol (32.8% yn gefnogol iawn neu'n gefnogol gan mwyaf) ac yn

fwyaf tebygol o gael eu cysylltu â chymorth cymysg (35.1%). Soniodd tua thraean o'r ymatebwyr (32.1%) fod myfyrwyr yn anghefnogol, (18.6% yn anghefnogol gan mwyaf; 13.5% yn anghefnogol iawn).

Ychydig o amrywiad oedd rhwng y gwahanol leoliadau ymhlith y grwpiau uchod, ac eithrio myfyrwyr. Mae lefelau cefnogaeth myfyrwyr yn ôl math o leoliad yn cael eu dadansoddi isod.

## Ffigur 13: lefelau canfyddedig cefnogaeth myfyrwyr i'r dull cyfredol, yn ôl math o leoliad




[Nodyn 1]: dim ond 65 o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wnaeth nodi eu bod yn gweithio mewn ysgol gynradd; o ganlyniad, mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau ar gyfer y grŵp hwn.
[Nodyn 2]: Roedd cwestiwn yr arolwg yn cynnwys opsiwn ymateb 'Amherthnasol'. Dewiswyd yr opsiwn hwn gan 6 ymatebydd; roedd 3 ohonynt yn dweud eu bod yn gweithio mewn ysgol gynradd a'r 3 arall yn gweithio mewn ysgol uwchradd. Mae ymatebion 'Amherthnasol' wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad hwn.

Disgrifiad o ffigur 13: mae'r siart bar llorweddol hwn yn dangos bod staff mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o adrodd cefnogaeth gymysg ymhlith myfyrwyr (38.7%) nag unrhyw gategori arall. Roedd adroddiadau o safbwyntiau anghefnogol hefyd yn gyffredin mewn lleoliadau uwchradd, gyda dros 1 o bob 5 ymatebydd (22.3%) yn nodi bod myfyrwyr yn anghefnogol gan mwyaf a bron i 1 o bob 7 (14.9%) yn anghefnogol iawn. Adroddodd cyfrannau is fod myfyrwyr yn gefnogol gan mwyaf (18.8%) neu'n gefnogol iawn (6.3%), sy'n dangos canfyddiad mwy cymysg neu negyddol o gefnogaeth myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd.

Mewn ysgolion cynradd, roedd canfyddiadau staff yn fwy cadarnhaol. Soniodd tua hanner yr ymatebwyr fod myfyrwyr yn gefnogol gan mwyaf (49.2%), ac 1 o bob 5 pellach (20.0%) fod myfyrwyr yn gefnogol iawn. Nododd llai o staff gefnogaeth gymysg (23.1%), a dim ond


cyfrannau bach a nododd fod myfyrwyr yn anghefnogol iawn neu'n anghefnogol gan mwyaf (cyfanswm o tua 8%). Mae hyn yn awgrymu bod staff mewn lleoliadau cynradd yn fwy tebygol o ystyried bod cefnogaeth myfyrwyr yn gadarnhaol.

Nifer fechan o ymatebion a gafwyd gan unedau cyfeirio disgyblion/darpariaeth amgen, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed, a dylid eu dehongli yn ofalus o'r herwydd. Ymateb mwyaf cyffredin staff mewn ysgolion pob oed (n=16) oedd bod myfyrwyr yn gefnogol gan mwyaf (n=7), er bod ymatebion yn gymysg yn gyffredinol, gyda niferoedd llai yn nodi cefnogaeth gymysg (n=3) a safbwyntiau anghefnogol gan mwyaf (n=3). Ychydig iawn wnaeth sôn bod myfyrwyr yn gefnogol iawn (n=1) neu'n anghefnogol iawn (n=2). Mewn ysgolion arbennig (n=17), roedd ymatebion wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal (cefnogol gan mwyaf n=5; cefnogaeth gymysg n=4; anghefnogol gan mwyaf n=2; anghefnogol iawn n=6). Mewn unedau cyfeirio disgyblion/lleoliadau darpariaeth amgen (n=3), soniodd 2 ymatebydd am gefnogaeth gymysg a soniodd un fod myfyrwyr yn anghefnogol gan mwyaf.

## Datblygu a gweithredu dulliau gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol

Roedd adran nesaf yr arolwg yn gofyn 4 cwestiwn am y dulliau datblygu a gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am yr heriau a wynebwyd wrth ddatblygu eu dull gweithredu (Ffigur 14).

### Ffigur 14: pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth ddatblygu eich dull gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol? (n=410)




[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd 'Adnoddau/cyfleusterau cyfyngedig (e.e. storio, gweithdrefnau atafaelu)' a 'Pryderon cyfreithiol/diogelu (e.e. ymdrin â dyfeisiau/gweld deunydd amhriodol)'.
[Nodyn 2]: roedd hwn yn gwestiwn amlddewis, gydag ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. O ganlyniad i hyn, nid yw'r canrannau ar gyfer pob opsiwn a nodwyd yn creu cyfanswm o 100%.

Disgrifiad o ffigur 14: mae’r siart bar hwn yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr wedi dweud bod cefnogaeth gyfyngedig gan ddysgwyr wedi bod yn her wrth ddatblygu dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol (51.7%). Roedd cyfran debyg yn dweud bod adnoddau/cyfleusterau cyfyngedig (45.9%) a chefnogaeth gyfyngedig gan rieni/gofalwyr (45.6%) wedi bod yn heriol. Yn ogystal, nododd tua chwarter yr ymatebwyr bryderon cyfreithiol/diogelu (28.8%) a gallu/hyfforddiant cyfyngedig ymhlith staff (22.9%) fel heriau.

Dewisodd ychydig o dan 1 o bob 8 ymatebydd (12.0%, n=49) yr opsiwn ‘Arall’ a darparu ymateb testun agored. Mae llawer o’r rhain yn ymhelaethu ar heriau a gafodd eu cofnodi yn yr opsiynau ymateb strwythuredig, gan ddarparu manylion ychwanegol ar faterion fel cefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr a rhieni/gofalwyr, cyfyngiadau o ran adnoddau a chapasiti staff.

Cyfeiriwyd at heriau yn ymwneud â chefnogaeth myfyrwyr mewn disgrifiadau o fethiannau i gydymffurfio â rheolau’r ysgol, gan gynnwys dysgwyr yn gwrthod cadw at gyfyngiadau neu sleifio ffonau i mewn i’r ysgol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at ddibyniaeth ganfyddedig ar ffonau symudol, gydag un yn nodi bod disgyblion yn teimlo nad ydynt yn gallu gwneud heb eu ffonau – dibyniaeth ar dechnoleg.


Yn ogystal, nodwyd fod ymwybyddiaeth o bolisïau mwy eangfrydig mewn ysgolion eraill yn cyfrannu at anawsterau o ran sicrhau cydymffurfio cyson. Cyfeiriwyd yn aml at anghysondebau o ran gweithredu polisïau o fewn ysgolion a rhwng gwahanol ysgolion, gan gynnwys gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu, polisïau’n amrywio o un ysgol i’r llall, agweddau mwy llac gan ysgolion eraill, ac amrywiadau rhwng arferion staff. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at ddylanwad ffactorau y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle mae plant yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i fwlio eraill y tu allan i’r ysgol a chanlyniadau hynny’n dod i’r ysgol drannoeth, gan ddangos sut y mae materion sy’n tarddu y tu hwnt i’r ysgol yn gallu effeithio ar ymddygiad a diogelu yn yr ysgol.

Roedd nifer llai o ymatebion yn cyfeirio at heriau ymarferol wrth weithredu’r polisi o ddydd i ddydd, megis yr amser sydd ei angen i reoli dyfeisiau, gydag un ymatebydd yn disgrifio’r heriau amser o orfod mynd allan o’i ffordd i gadw dyfeisiau mewn ystafell wahanol a nodi hyn fel straen ychwanegol yn ystod y diwrnod ysgol. Yn olaf, roedd ychydig o ymatebion yn cyffwrdd ar faterion nad oedd wedi eu cwmpasu gan yr opsiynau strwythuredig, gan gynnwys cyfeiriadau at anghenion dysgu ychwanegol (er mai manylion cyfyngedig a ddarparwyd) a sylwadau yn ymwneud â chanfyddiad o ddiffyg cyfeiriad, cefnogaeth neu gyngor ar lefel genedlaethol.

Dywedodd mwy nag 1 o bob 7 ymatebydd (15.4%) nad oeddent wedi profi unrhyw heriau wrth ddatblygu dull gweithredu eu lleoliad.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd am yr heriau a wynebodd eu lleoliad wrth roi eu dull gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol ar waith (Ffigur 15).

**Ffigur 15: pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth weithredu eich dull o ran y defnydd o ffonau symudol? (n=410)**




[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd 'Adnoddau/cyfleusterau cyfyngedig (e.e. storio, gweithdrefnau atafaelu)' a 'Pryderon cyfreithiol/diogelu (e.e. ymdrin â dyfeisiau/gweld deunydd amhriodol)'.
[Nodyn 2]: roedd hwn yn gwestiwn amlddewis, gydag ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. O ganlyniad i hyn, nid yw'r canrannau ar gyfer pob opsiwn a nodwyd yn creu cyfanswm o 100%.


Disgrifiad o ffigur 15: mae'r siart bar hwn yn dangos bod mwy na hanner yr ymatebwyr wedi sôn am gefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr (54.1%) ac anghysondeb wrth orfodi'r polisi (50.5%), ac wedyn am gefnogaeth gyfyngedig gan rieni/gofalwyr (43.9%) ac adnoddau a chyfleusterau cyfyngedig(38.3%). Cyfeiriodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr at heriau yn gysylltiedig â chamddehongli polisi neu ganllawiau neu reolau a ddatblygwyd fel rhan o ddull gweithredu eu lleoliad (26.3%). Yr heriau lleiaf cyffredin a nodwyd gan tua 1 o bob 5 ymatebydd oedd pryderon cyfreithiol neu ddiogelu (19.8%) a chapasiti neu hyfforddiant cyfyngedig ymhlith staff (18.0%).

Dewisodd 18 ymatebydd (4.4%) 'Arall' wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, a dewisodd rhai ddarparu ymateb testun agored. Mae'r ymatebion hyn yn adleisio i raddau helaeth yr opsiynau ymateb caeedig ar ffurf testun, gan dynnu sylw at gefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn cysylltu hyn ag adroddiadau o ymddygiadau heriol neu aflonyddgar gan fyfyrwyr, yn ogystal ag anawsterau canfyddedig wrth orfodi dull gweithredu cyfredol eu lleoliad.

Dywedodd mwy nag 1 o bob 7 ymatebydd (15.6%) nad oeddent wedi profi unrhyw heriau wrth roi dull gweithredu eu lleoliad ar waith.

Yn ogystal, gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr am y ffactorau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth ddatblygu dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol (Ffigur 16).

**Ffigur 16: yn eich barn chi, pa ffactorau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth ddatblygu dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol? (n=410)**





[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd ‘Ymgysylltu agored a thryloyw (gan gynnwys ymgynghori â chymuned yr ysgol)’ a ‘Negeseuon clir i hyrwyddo’r polisi (h.y. gwasanaethau ysgol, nosweithiau rhieni)’.
[Nodyn 2]: roedd hwn yn gwestiwn amlddewis, gydag ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. O ganlyniad i hyn, nid yw’r canrannau ar gyfer pob opsiwn a nodwyd yn creu cyfanswm o 100%.

Disgrifiad o ffigur 16: mae’r siart bar hwn yn dangos mai rhesymeg/rheswm cryf dros bolisi ffonau symudol oedd y ffactor mwyaf cyffredin i gefnogi datblygu dulliau gweithredu, yn ôl bron i ddwy ran o dair (64.1%) o’r ymatebwyr, a hynny’n cael ei ddilyn yn agos gan negeseuon clir i hyrwyddo’r polisi (59.3%). Dywedodd dros draean o’r ymatebwyr fod ymgysylltu agored a thryloyw yn ddefnyddiol (37.8%) a nododd ychydig llai na chwarter fod dysgu o ddulliau gweithredu ysgolion eraill yn ddefnyddiol (22.9%).

Yn ogystal â’r rhain, dewiswyd yr opsiwn ‘Arall’ gan lond llaw o’r ymatebwyr (3.2% n=13). Yn yr ymatebion testun agored a ddarparwyd, mae rhai ymatebwyr yn sôn am gytundeb gan staff a negeseuon cyson gan staff i rieni a gofalwyr fel ffactorau perthnasol. Ar sawl achlysur, cyfeiriodd ymatebwyr at bresenoldeb polisi tymor hwy neu ddiwylliant o ymarfer sy’n gwahardd defnyddio ffôn symudol sy’n rhagflaenu pryderon diweddar ac sydd bellach wedi’i ymgorffori ac yn gweithio’n llwyddiannus.

Caewyd pen y mwdwl ar y thema hon drwy ofyn i’r ymatebwyr am y ffactorau sydd, yn eu barn hwy, wedi bod yn ddefnyddiol wrth roi dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar waith (Ffigur 17).

### Ffigur 17: ffactorau sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth weithredu dull lleoliad o ymdrin â’r defnydd o ffonau symudol (n=410)




[Nodyn 1]: yr opsiynau ymateb llawn yn yr arolwg oedd ‘Cysylltiadau clir â pholisïau ehangach yr ysgol, h.y. polisïau lles, ymddygiad/perthynol)’, ‘Cynnig dewisiadau amgen cadarnhaol (h.y. gweithgareddau amser egwyl)’ a ‘Dathlu llwyddiant (e.e. mwy o ryngweithio wyneb yn wyneb, cyfeillgarwch cryfach, gwell lefelau lles)’.
[Nodyn 2]: roedd hwn yn gwestiwn amlddewis, gydag ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. O ganlyniad i hyn, nid yw’r canrannau ar gyfer pob opsiwn a nodwyd yn creu cyfanswm o 100%.


Disgrifiad o ffigur 17: mae’r siart bar hwn yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr yn nodi mai’r ffactor sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth weithredu dull eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol yw cysondeb wrth orfodi’r polisi (53.2%), a hynny’n cael ei ddilyn gan gysylltiadau clir â pholisïau ehangach yr ysgol (43.2%), cefnogaeth gan rieni/gofalwyr (40.2%) a chefnogaeth gan lywodraethwyr (37.1%), ac ychydig dros chwarter yn nodi rôl cefnogaeth gan ddysgwyr (27.3%). Roedd yr ymatebion llai cyffredin a nodwyd yn cynnwys dathlu llwyddiant (16.3%), cefnogaeth gan yr awdurdod lleol (15.6%) a chynnig dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle defnyddio ffonau symudol (14.9%).

Dewisodd naw ymatebydd (2.2%) yr opsiwn ‘Arall’ wrth ymateb i’r cwestiwn hwn. Mae’r ymatebion testun agored hyn yn ailadrodd pwysigrwydd cysondeb o ran gorfodi a’r gefnogaeth a roddir i staff addysgu wrth roi’r polisi neu’r dull gweithredu ar waith. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at gysondeb o ran y negeseuon sy’n cael eu darparu i rieni a dysgwyr mewn ffordd sy’n cefnogi tryloywder.

## Y dull cenedlaethol a ffefrir

Gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru fynd i’r afael â’r defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg (Ffigur 18).

### Ffigur 18: yn eich barn chi, beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud o ran y defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg ac unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig? (n=410)




[Nodyn 1]: Roedd yr ymatebwyr hynny a ddewisodd yr opsiwn ‘Arall’ ac a ddarparodd ymateb dilys (n=5) eu bod wedi gwneud hynny am nad oeddent yn siŵr pa opsiwn i’w ddewis.
[Nodyn 2]: Cyfanswm canrannau yn 100.1% oherwydd talgrynnu.

Disgrifiad o ffigur 18: mae’r siart bar hwn yn dangos bod mwy nag 8 o bob 10 ymatebydd (82.0%) yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfyngiadau statudol ar y defnydd o ffonau symudol gan fyfyrwyr. Roedd tua 1 o bob 7 ymatebydd (15.1%) yn cefnogi darparu canllawiau statudol cenedlaethol yn argymell cyfyngiadau, gan adael penderfyniadau i leoliadau, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol o dan y pwerau presennol. Dim ond 1.5% (n=6) o’r ymatebwyr oedd yn teimlo na ddylid darparu canllawiau ac y dylid gadael penderfyniadau yn gyfan gwbl i leoliadau.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn dangos cysondeb sylweddol ar draws lleoliadau, gydag ymatebwyr ym mhob lleoliad ar y cyfan yn cefnogi cyflwyno cyfyngiadau statudol ar y defnydd o ffonau symudol. Er bod rhywfaint o amrywiaeth yn lefel y gefnogaeth ar gyfer dulliau amgen, roedd patrymau yn debyg i raddau helaeth ar draws ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio eu hymateb, a darparodd 392 ohonynt sylwadau testun agored. Y farn a fynegwyd amlaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru bennu dull gweithredu cenedlaethol clir a chyson ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, gan fod ymatebwyr yn teimlo bod y dulliau amrywiol presennol yn tanseilio dealltwriaeth a gorfodaeth. Roedd ymatebwyr yn sôn bod yr anghysondeb yn creu dryswch, anghytundeb a gwrthdaro rhwng ysgolion, dysgwyr a rhieni. Fel y nododd un ymatebydd, os yw'r canllawiau yr un fath ar draws pob ysgol, yna mae cysondeb ar draws pob ysgol, a hynny wedyn yn golygu nad oes unrhyw anghysondebau na lle i ddadlau.

Yn cyd-fynd yn agos â'r awydd hwn am gysondeb, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai cyfeiriad wedi'i osod ar lefel genedlaethol yn fwy effeithiol na gadael penderfyniadau i ysgolion unigol, ac mai cyfyngiadau statudol yw'r mecanwaith mwyaf cadarn gan eu bod yn darparu eglurder ac yn cael gwared ar unrhyw gyfle i ddehongli. Soniodd un ymatebydd am y rheidrwydd i fynd â'r mater allan o ddwylo ysgolion, a'r ffordd y mae cyfyngiadau statudol yn symleiddio popeth i ysgolion ac yn darparu'r sicrwydd sydd ei angen ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, er bod deddfwriaeth yn cael ei bwysleisio'n aml, mae ymatebion yn awgrymu mai un o'r pryderon sylfaenol pennaf oedd yr angen am fwy o gysondeb ar draws lleoliadau, yn hytrach na'r defnydd o ddeddfwriaeth neu ganllawiau i gyflawni hynny.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y pwysau ar ysgolion a staff o dan y trefniadau presennol, yn enwedig lle'r oedd polisïau yn arwain at anghytuno gyda rhieni neu ddysgwyr. Roedd nifer o ymatebwyr yn disgrifio rheolau ffonau symudol fel ffynhonnell anghydfod, gyda staff yn treulio amser yn cyfiawnhau neu drafod cyfyngiadau. Y farn oedd y byddai dull cyfyngol dan arweiniad cenedlaethol yn lleihau'r baich hwn drwy drosglwyddo cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru a darparu awdurdod allanol i gefnogi gorfodi. Crynhowyd y farn hon gan un ymatebydd, a nododd na fyddai'r plant yn gallu cwyno os yw'r un polisi ar waith ym mhobman, gan y byddai rhieni a disgyblion yn deall y sefyllfa.

Wrth esbonio pam roedd angen ymyrraeth Llywodraeth Cymru, cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at effeithiau negyddol canfyddedig y defnydd o ffonau symudol ar ddysgu, ymddygiad a lles. Roedd ffonau yn aml yn gysylltiedig â thynnu sylw dysgwyr mewn gwersi, pryderon diogelu, bwlio ar-lein a llai o ryngweithio cymdeithasol, gyda rhai ymatebwyr yn cysylltu'r materion hyn yn uniongyrchol â llwyth gwaith cynyddol staff. Weithiau, roedd y safbwyntiau hyn wedi'u seilio ar brofiad yr ymatebwyr eu hunain, er enghraifft lle'r oedd cyfyngiadau eisoes wedi'u cyflwyno yn lleol. Fel y nododd un ymatebydd, roedd ffonau symudol yn ymyrryd â'i wersi a'i ddyletswyddau bugeiliol ac yn achosi problemau diogelu a bwlio sylweddol.

Roedd ystyriaethau tegwch yn amlwg hefyd. Dadleuodd llawer o ymatebwyr y byddai cysondeb cenedlaethol yn hyrwyddo tegwch drwy sicrhau disgwyliadau tebyg i ddysgwyr ledled Cymru, waeth beth yw'r ysgol neu'r ardal, ac y byddai'n lleihau anawsterau wrth bontio rhwng ysgolion. Esboniodd un ymatebydd fod cael canllawiau cenedlaethol yn sicrhau profiadau teg i bob dysgwr, gan roi'r un cyfleoedd iddynt ddatblygu cydberthnasoedd a chyfathrebu heb ffonau symudol. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â diogelu, gydag ymatebwyr yn awgrymu y byddai cyfyngiadau cyson yn amddiffyn dysgwyr a staff yn well.

Ochr yn ochr â safbwyntiau ar gyfeiriad cenedlaethol, pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai dull Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu ymarferol. Awgrymodd llawer y byddai angen cefnogi unrhyw ddisgwyliadau cenedlaethol gan weithdrefnau clir ac adnoddau priodol, yn enwedig o ran storio ffonau yn ddiogel. Heb fesurau o'r fath, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai ysgolion gael trafferth rhoi cyfyngiadau ar waith. Fel y nododd un ymatebydd, os yw ffonau yn cael eu cario ar gyfer y daith i'r ysgol, dylid sicrhau cyllid i bob ysgol ar gyfer waledi diogel neu gyfleusterau storio diogel i'w cloi o'r neilltu am y diwrnod.

Mynegwyd pryder gan un grŵp bach o ymatebwyr am gyfyngiadau cenedlaethol cynhwysfawr, gan ddadlau o blaid hyblygrwydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod ysgolion yn wahanol o ran cyd-destun, cyfnod dysgu ac anghenion y dysgwyr, ac y dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu disgresiwn i addasu ar gyfer y gwahaniaethau hyn. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod defnyddiau addysgol ffonau mewn rhai lleoliadau ac anghenion dysgwyr sydd angen ffonau am resymau meddygol neu hygyrchedd. Nododd un ymatebydd fod pob ysgol yn wahanol, y byddai cyfyngiadau statudol cynhwysfawr yn ddi-fudd, ac y dylai'r canllawiau gefnogi ysgolion llwyddiannus i barhau â'r hyn sydd eisoes yn gweithio. Er bod y safbwyntiau hyn wedi'u mynegi, roeddent yn sylweddol llai cyffredin na galwadau am ddull cyson ar lefel genedlaethol.

# 5. Casgliadau

Mae'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion wedi derbyn sylw cynyddol gan randdeiliaid ac o ran polisi yng Nghymru a ledled y DU, yn enwedig mewn perthynas â'i effeithiau posibl ar ddysgu, ymddygiad a lles. Yng Nghymru, mae dulliau gweithredu yn cael eu pennu ar lefel ysgol ar hyn o bryd, gydag arferion yn amrywio rhwng lleoliadau ac awdurdodau lleol.

Cynlluniwyd yr arolwg i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar sut mae'r defnydd o ffonau symudol yn cael ei reoli ar draws lleoliadau addysg yng Nghymru ar hyn o bryd, ac i lywio datblygiad polisi yn y maes hwn. Mae'r arolwg wedi cyflawni'r nodau hyn drwy gasglu tystiolaeth ar bolisïau ac arferion cyfredol, archwilio'r rhesymau sy'n sail i'r dulliau gweithredu hyn, a nodi'r heriau a'r hwylustod sy'n codi wrth eu rhoi ar waith. Mae hefyd yn asesu effeithiau canfyddedig dulliau gweithredu cyfredol ar feysydd fel dysgu, ymddygiad a lles, ac yn cipio safbwyntiau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion.

Mae canfyddiadau meintiol yn dangos amrywiad sylweddol yn y ffordd y mae'r defnydd o ffonau symudol yn cael ei reoli ar draws lleoliadau. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi adrodd bod polisi ysgrifenedig ffurfiol yn bodoli, disgrifiodd eraill drefniadau mwy anffurfiol, gan gynnwys rheolau dealledig neu ganllawiau rhannol. Mae gwahaniaethau hefyd yn amlwg rhwng lleoliadau, gydag ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o grybwyll polisïau ffurfiol a dulliau mwy cyfyngol nag ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd a lleoliadau eraill. Er gwaethaf yr amrywiad hwn, mae cydweddu eang ar draws lleoliadau o ran cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Y dull mwyaf cyffredin yw caniatáu ffonau ar y safle ond cyfyngu ar eu defnydd yn ystod amser dysgu, er bod dulliau amgen, megis defnydd cyfyngedig ar adegau penodol neu gyfyngiadau cyflawn, hefyd yn cael eu crybwyll.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gweld dull gweithredu eu lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol yn cael effeithiau cadarnhaol ar draws sawl maes. Yr effeithiau cadarnhaol neu gadarnhaol iawn a adroddwyd amlaf oedd cyfyngu ar unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r dysgwyr, rheoli ymddygiad, lleihau bwlio neu gamddefnydd, a gwella lles dysgwyr. Ar y llaw arall, roedd effeithiau canfyddedig ar lwyth gwaith staff a phresenoldeb dysgwyr yn fwy cymysg. Er bod rhai ymatebwyr wedi crybwyll effeithiau cadarnhaol, soniodd cyfran sylweddol am fwy o lwyth gwaith neu ddim newid amlwg, sy'n awgrymu bod gweithredu a gorfodi polisïau, mewn rhai achosion, yn gallu arwain at ofynion ychwanegol gan staff.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu ystod o heriau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu polisïau ffonau symudol. Ymhlith yr heriau a adroddwyd amlaf oedd cefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr, anghysondeb wrth orfodi, a chefnogaeth gyfyngedig gan rieni neu ofalwyr. Cyfeiriwyd hefyd at gyfyngiadau o ran adnoddau, gan gynnwys argaeledd cyfleusterau storio diogel. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysondeb wrth weithredu a chefnogi polisïau a chanllawiau ffonau symudol gan gymuned ehangach yr ysgol.

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth ar ffactorau sy'n cefnogi datblygu a gweithredu yn pwysleisio pwysigrwydd eglurder, cyfathrebu a chysondeb. Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig cael

rhesymeg glir dros roi polisïau ar waith a bod yn gyson wrth gyfleu negeseuon i staff, dysgwyr a rhieni wrth gefnogi datblygiad. O ran gweithredu, nodwyd fod y canlynol yn hwyluswyr pwysig: gorfodi cyson, cydweddu â pholisïau ehangach ysgolion, a chefnogaeth gan rieni, llywodraethwyr a staff. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar gyfuniad o ddisgwyliadau clir, dealltwriaeth gyffredin ar draws cymuned yr ysgol, a gweithredu polisïau yn gyson yn ymarferol.

O ran datblygu polisi yn y dyfodol, mae cefnogaeth gref a chyson ymhlith ymatebwyr ar gyfer mwy o gyfeirio ar lefel genedlaethol. Mae canfyddiadau meintiol yn dangos bod mwyafrif helaeth o blaid cyflwyno cyfyngiadau statudol ar y defnydd o ffonau symudol, gyda chefnogaeth cymharol brin i ddulliau sy'n gadael penderfyniadau yn gyfan gwbl yn nwylo lleoliadau unigol, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol. Mae ymatebion ansoddol yn awgrymu bod y dewis hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan awydd am fwy o gysondeb ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, ochr yn ochr â chanfyddiad y byddai disgwyliadau ar lefel genedlaethol yn cefnogi gorfodi ac yn lleihau gwrthdaro â dysgwyr a rhieni. Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu profiadau ymatebwyr o heriau sy'n gysylltiedig ag amrywiad cyfredol mewn dulliau a gweithredu polisïau ar lefel leol.

Ar yr un pryd, tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd hyblygrwydd mewn unrhyw ddull cenedlaethol. Er bod y safbwyntiau hyn yn llai cyffredin, maen nhw'n arwydd o densiwn posibl rhwng manteision cysondeb cenedlaethol a'r angen i addasu ar gyfer amgylchiadau lleol.

Er bod dulliau cyfyngol o ran y defnydd o ffonau symudol eisoes ar waith yn y rhan helaeth o leoliadau, mae'r canfyddiadau gyda'i gilydd yn awgrymu awydd clir o fewn y gweithlu addysg am fwy o gysondeb a chyfeiriad cenedlaethol. Ar yr un pryd, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod effeithiolrwydd yn debygol o ddibynnu ar ffactorau gweithredu, gan gynnwys cysondeb gorfodi, cefnogaeth rhanddeiliaid a'r gallu i gyrchu adnoddau priodol. Mae'r ffactorau hyn yn debygol o fod yn ystyriaethau pwysig wrth ddylunio a gweithredu unrhyw ganllawiau neu gyfyngiadau ar ddefnyddio ffonau symudol mewn lleoliadau addysg yng Nghymru yn y dyfodol.

# Atodiad A Offeryn arolwg

Mae Llywodraeth Cymru am gael barn y gweithlu addysg ar ddefnydd myfyrwyr o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg ledled Cymru. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y dulliau gweithredu cyfredol, y rhesymau y tu ôl iddynt, ac unrhyw effeithiau a nodwyd. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r camau nesaf o ran rhoi cymorth i leoliadau addysg mewn perthynas â ffonau symudol i'r dyfodol.

Ni ddylai'r arolwg byr hwn gymryd mwy na 10 munud ichi. Atebwch yn seiliedig ar eich lleoliad presennol.

1) **Ydych chi'n ymateb heddiw fel (atebwch yn seiliedig ar eich prif rôl):**
    - Athro dosbarth
    - Cynorthwy-ydd addysgu/staff cymorth
    - Staff bugeiliol/lles
    - Arbenigwr Anghenion Dysgu Ychwanegol
    - Arweinydd ymddygiad
    - Arweinydd diogelu
    - Uwch-arweinydd (un o'r tîm uwch-arweinwyr)
    - Staff gweinyddol
    - Arall (manylwch):

2) **Ym mha fath o leoliad ydych chi'n gweithio?**
    - Ysgol gynradd
    - Ysgol uwchradd
    - Ysgol arbennig
    - Uned Cyfeirio Disgyblion/Darpariaeth amgen
    - Lleoliad dysgu 16-19/Coleg AB
    - Ysgol pob oed
    - Arall (manylwch):

3) **Ym mha Awdurdod Lleol y mae eich lleoliad addysg?**
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
    - Cyngor Caerdydd
    - Cyngor Sir Caerfyrddin
    - Cyngor Sir Ceredigion
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
    - Cyngor Sir Ddinbych
    - Cyngor Sir y Fflint
    - Cyngor Gwynedd
    - Cyngor Sir Ynys Môn
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
    - Cyngor Sir Fynwy
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
    - Cyngor Dinas Casnewydd

- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

4) Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sefyllfa eich lleoliad o ran polisi a chanllawiau ar gyfer defnyddio ffôn symudol:
   - Mae gennym bolisi ysgrifenedig ffurfiol
   - Mae gennym ganllawiau a rheolau ysgrifenedig, ond dim polisi ffurfiol
   - Mae gennym ganllawiau a rheolau dealledig, ond dim polisi ffurfiol
   - Nid oes gennym unrhyw ganllawiau na rheolau ar hyn o bryd, na pholisi ffurfiol

     Cyfeiriad **Ydych chi'n ystyried datblygu, neu yn y broses o ddatblygu polisi, canllawiau neu reolau ar gyfer ffonau symudol yn eich lleoliad?**

     i. Ydym
     ii. Nac ydym

     Dywedwch fwy wrthym:

5) **Beth yw'r dull gweithredu cyfredol o ran ffonau symudol myfyrwyr yn eich lleoliad?**
   - Ni chaniateir ffonau ar y safle
   - Caniateir ffonau ar y safle, ond wedi'u cloi mewn cwdynnau ffôn
   - Caniateir ffonau ar y safle, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol
   - Caniateir ffonau ar y safle, â defnydd cyfyngedig (e.e. amser egwyl)
   - Caniateir ffonau ar y safle, a ddefnyddir yn ôl disgresiwn yr athrawon yn unig (e.e. gweithgareddau dysgu ac argyfyngau)
   - Dim cyfyngiadau ar ddefnydd myfyrwyr o ffonau symudol
   - Arall (manylwch):

6) **I ba raddau y mae'r polisi ffonau symudol yn cael ei orfodi'n gyson ar draws eich lleoliad (e.e. ystafelloedd dosbarth, coridorau, mannau cymdeithasol)?**
   - Yn gyson iawn
   - Yn gyson gan mwyaf
   - Yn weddol gyson
   - Ddim yn gyson iawn
   - Ddim yn gyson o gwbl
   - Amherthnasol

7) **Pa mor bwysig yw pob un o'r rhesymau canlynol mewn perthynas â dull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol?**

| | Pwysig iawn | Reit bwysig | Gweddol bwysig | Ddim yn bwysig iawn | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfyngu ar unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r dysgwyr | | | | | |
| Rheoli ymddygiad (e.e. lleihau tarfu lefel isel) | | | | | |
| Lleihau bwlio/defnydd maleisus o ffonau symudol (deunydd amhriodol, rhannu delweddau) | | | | | |
| Hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol | | | | | |
| Presenoldeb a phrydlondeb (e.e. lleihau'r tebygolrwydd bod dysgwyr yn hwyr oherwydd eu bod yn defnyddio eu ffôn) | | | | | |
| Lles dysgwyr | | | | | |
| Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng dysgwyr a'u cyfoedion | | | | | |
| Llwyth gwaith staff (e.e. lleihau gwrthdaro neu weinyddu sy'n gysylltiedig â defnydd o ffonau) | | | | | |
| Disgwyliadau neu ddewisiadau rhieni/gofalwyr | | | | | |

**8) Yn gyffredinol, sut fyddech chi'n disgrifio effaith dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol ar y meysydd canlynol?**

| | Cadarnhaol iawn | Cadarnhaol | Dim newid amlwg | Negyddol | Negyddol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfyngu ar unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r dysgwyr | | | | | |
| Rheoli ymddygiad (e.e. lleihau tarfu lefel isel) | | | | | |
| Lleihau bwlio/defnydd maleisus o ffonau symudol (deunydd amhriodol, rhannu delweddau) | | | | | |
| Hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol | | | | | |
| Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng dysgwyr a'u cyfoedion | | | | | |
| Gwella lles dysgwyr | | | | | |
| Presenoldeb a phrydlondeb (e.e. lleihau'r tebygolrwydd bod dysgwyr yn hwyr oherwydd eu bod yn defnyddio eu ffôn) | | | | | |
| Llwyth gwaith staff (e.e. lleihau gwrthdaro neu weinyddu sy'n gysylltiedig â defnydd o ffonau) | | | | | |

9) **Sut fyddech chi'n disgrifio lefel y gefnogaeth i ddull gweithredu cyfredol eich lleoliad o ran defnydd o ffonau symudol ymhlith y grwpiau canlynol?**

| | Cefnogol iawn | Cefnogol gan mwyaf | Cefnogaeth gymysg | Anghefnogol gan mwyaf | Anghefnogol iawn | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhieni/gofalwyr | | | | | | |
| Myfyrwyr | | | | | | |
| Staff | | | | | | |
| Llywodraethwyr | | | | | | |
| Awdurdod Lleol | | | | | | |

**Mae'r pedwar cwestiwn nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu safbwynt eich lleoliad o ran defnydd myfyrwyr o ffonau symudol.**

10) **Pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth <u>ddatblygu</u> eich dull gweithredu o ran y defnydd o ffonau symudol? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**
    - Cefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr
    - Cefnogaeth gyfyngedig gan rieni/gofalwyr
    - Adnoddau/cyfleusterau cyfyngedig (e.e. storio, gweithdrefnau atafaelu)
    - Capasiti/hyfforddiant cyfyngedig ymhlith staff
    - Pryderon cyfreithiol/diogelu (e.e. ymdrin â dyfeisiau/gweld deunydd amhriodol)
    - Arall (manylwch):
    - Dim heriau

11) **Pa heriau y mae eich lleoliad wedi'u hwynebu wrth <u>weithredu</u> eich dull o ran y defnydd o ffonau symudol? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**
    - Cefnogaeth gyfyngedig gan fyfyrwyr
    - Cefnogaeth gyfyngedig gan rieni/gofalwyr
    - Adnoddau/cyfleusterau cyfyngedig (e.e. storio, gweithdrefnau atafaelu)
    - Camddehongli'r polisi/canllawiau neu'r rheolau
    - Anghysondeb wrth orfodi'r polisi/canllawiau neu'r rheolau
    - Capasiti/hyfforddiant cyfyngedig ymhlith staff

- Pryderon cyfreithiol/diogelu (e.e. ymdrin â dyfeisiau/gweld deunydd amhriodol)
- Arall (manylwch):
- Dim heriau

**12) Yn eich barn chi, pa ffactorau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth ddatblygu dull gweithredu eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol?**

- Dysgu o ddulliau ysgolion eraill
- Rhesymeg/rheswm cryf dros bolisi ffonau symudol
- Ymgysylltu agored a thryloyw (gan gynnwys ymgynghori â chymuned yr ysgol)
- Negeseuon clir i hyrwyddo'r polisi (h.y. gwasanaethau ysgol, nosweithiau rhieni)
- Arall (manylwch):

**13) Yn eich barn chi, pa ffactorau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth weithredu dull eich lleoliad o ran y defnydd o ffonau symudol?**

- Cefnogaeth gan ddysgwyr
- Cefnogaeth gan rieni/gofalwyr
- Cefnogaeth gan lywodraethwyr
- Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol
- Cysylltiadau clir â pholisïau ehangach yr ysgol, h.y. polisïau lles, ymddygiad/perthynol
- Cynnig dewisiadau amgen cadarnhaol (h.y. gweithgareddau amser egwyl)
- Cysondeb wrth orfodi'r polisi/canllawiau neu'r rheolau
- Dathlu llwyddiant (e.e. mwy o ryngweithio wyneb yn wyneb, cyfeillgarwch cryfach, gwell lefelau lles).
- Arall (manylwch):

**14) Yn eich barn chi, beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud o ran y defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau addysg ac unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig?**

- Cyflwyno cyfyngiadau statudol
- Darparu canllawiau statudol cenedlaethol sy'n argymell cyfyngiadau ar ddefnyddio ffonau, ond gadael y penderfyniad i'r lleoliadau eu hunain a'r cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol (o dan pwerau presennol)
- Peidio â darparu unrhyw ganllawiau, a gadael penderfyniadau yn gyfan gwbl i'r lleoliadau eu hunain
- Arall (manylwch):

**15) Rhowch esboniad byr ar gyfer eich ymateb i gwestiwn 14:**